# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 26 MEDI 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Elfed Roberts (Cadeirydd)

**Y CYNGHORWYR:** Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Angela Russell, Owain Williams a Gruffydd Williams

**SWYDDOGION:**
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd) a Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a Rebeca Jones (Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Stephen Churchman, Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Mike Stevens a Gethin Glyn Williams

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4.07.2019 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. ADOLYGIAD STRATEGOL O'R GWASANAETH CLUDIANT CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd gan Pennaeth yr Amgylchedd ar y gwaith o adolygu darpariaeth cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd ynghyd a'r camau nesaf bydd yr Adran

yn gweithredu arnynt. Nodwyd bod yr adolygiad yn rhoi cyfle i'r Cyngor dreialu ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion trafnidiaeth. Ategwyd nad oedd y rhwydwaith presennol wedi ei datblygu ers degawdau ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi ei adolygu'n gynhwysfawr yn ystod y cyfnod yma. Nodwyd bod cymorth gan Trafnidiaeth Cymru i gyflawni'r ddarpariaeth gyda'r weledigaeth bod Traws Cymru yn darparu'r prif goridor teithio gyda dibyniaeth ar y gwasanaethau lleol i gysylltu.

Amlygwyd bod buddsoddiad amser ac ymdrech wedi ei neilltuo ar gyfer casglu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu selio ar yr angen ac yn cael eu blaenoriaethu ar sail gwerth cymdeithasol. Casglwyd gwybodaeth drwy ffurf holiadur ac fe dderbyniwyd 2021 o ymatebion. Adroddwyd bod gwaith cychwynnol wedi ei wneud ar ddadansoddi'r ymatebion fydd yn sail i'r camau nesaf

- adolygu addasrwydd y rhwydwaith cludiant presennol
- sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd ar angen yn y modd mwyaf cost effeithiol
- blaenoriaethu'r siwrneiau / llwybr ar sail gwerth cymdeithasol (gwaith wedi ei gomisiynau gan Prifysgol Bangor)

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Gruffydd Williams bod Cynghorwyr Dwyfor, mewn ymateb i adolygiad blaenorol, wedi gwneud cais i warchod y gwasanaeth rhag toriadau a sicrhau cadw pobl yng nghefn gwlad, nododd Pennaeth yr Amgylchedd nad oedd bwriad torri cyllideb cludiant cyhoeddus. Ategodd, er yr heriau i gynnal y gwasanaeth, y prif nod yw cwrdd ar angen yn y modd mwyaf cost effeithiol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Croesawu'r adolygiad strategol a'r weledigaeth o wella'r defnydd yn y gobaith o weld gwelliant yn y gwasanaeth cludiant cyhoeddus
- Bod y dulliau casglu gwybodaeth wedi bod yn briodol a'r ymateb i'r holiaduron wedi bod yn galonogol - angen adeiladu ar hyn a dadansoddi'r data i gwrdd ar angen
- Croesawu ystyriaeth defnyddio llai o fysiau mawr - hyn yn gam adeiladol ymlaen
- Angen sicrhau bod trefniadau galw am wasanaeth yn hyblyg; bod datrysiadau i bob sefyllfa. Awgrym i dreialu'r trefniadau er mwyn sicrhau llwyddiant
- Bod angen egluro a thrafod unrhyw ystyriaethau o newid gyda thrigolion yn eu cymunedau - awgrym i rannu'r wybodaeth yn y papurau bro
- Bod angen trefniadau marchnata effeithiol
- Bod angen cydweithio a chefnogi gwasanaethau lleol, e.e., O Ddrws i Ddrws, a oes modd defnyddio tocyn mantais ar gyfer gwasanaethau lleol?
- Bod angen ystyried effaith ôl troed carbon - hybu pobl i ddefnyddio bysiau
- Rhaid sicrhau mai'r daith sydd yn flaenoriaeth ac nid y cerbyd / adnodd
- Os defnyddio cerbydau llai, bydd angen ystyried yr effaith ar gwmnïau bysiau mawr
- Angen sicrhau bod pob cefnogaeth ar gael i ddeiliaid tocyn mantais adnewyddu eu cardiau erbyn 1/1/2020

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r effaith ar gwmnïau bysiau, amlygwyd mai'r bysiau mawr fydd asgwrn cefn y gwasanaeth gyda cherbydau llai yn bwydo i mewn i'r gwasanaeth hwnnw.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag adnewyddu tocynnau mantais, amlygwyd bod yr Adran yn gwneud pob ymgais i gefnogi Trafnidiaeth Cymru o weinyddu'r gwaith o adnewyddu tocynnau. Ategwyd bod swyddogion y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd ar draws y sir, yn ymateb i ymholiadau ffôn ac yn cynnig cyngor ac arweiniad ar sut i adnewyddu tocyn

drwy gais papur neu ar-lein. Nodwyd bod y cerdyn mantais newydd yn ddiogelach ac yn arbed twyll.

**PENDERFYNWYD,**

- **Derbyn yr adroddiad a llongyfarch yr Adran ar y gwaith ymgysylltu a wnaed i gasglu barn trigolion**
- **Argymell i'r gwasanaeth ystyried yr effaith hir dymor ar dorri gwasanaethau yng nghefn gwlad**
- **Argymell i'r gwasanaeth sicrhau hyblygrwydd yn y trefniadau newydd e.e., sicrhau bod gwasanaeth 'Ateb y Galw' yn hyblyg a bod cerbydau o faint digonol yn ymateb i'r galw**
- **Argymell i'r gwasanaeth ystyried cydweithio gyda chwmnïau lleol / gwasanaethau eraill**
- **Argymell yr angen i farchnata'r gwasanaeth yn effeithiol ar ei newydd wedd**
- **Argymell bod cyfle i ystyried yr effaith amgylcheddol fel rhan o'r adolygiad**

## 6. SEFYDLU GRWP TASG RHEOLI PARCIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn cynnwys cylch gorchwyl a rhaglen waith amlinellol ar gyfer Grŵp Tasg o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i gynorthwyo'r Gwasanaeth gyda'r gwaith o ddadansoddi amrediad opsiynau ar gyfer rheoli parcio yng Ngwynedd. Amlygwyd mai'r bwriad yw asesu'r opsiynau posib ar gyfer cynyddu'r incwm o feysydd parcio gan ystyried a fuasai modd gwneud hynny heb gynyddu'r gost i drigolion Gwynedd.

Atgoffwyd yr aelodau bod pedwar aelod wedi eu hethol ar gyfer y Grŵp Tasg yng nghyfarfod o'r Pwyllgor 4ydd Gorffennaf 2019 - y Cynghorwyr Kevin Morris Jones (Arfon), Angela Russell (Dwyfor), Annwen Hughes a Gethin Glyn Williams (Meirionnydd).

**CYMERADWYWYD y cylch gorchwyl a'r rhaglen waith amlinellol ar gyfer y Grŵp Tasg**

## 7. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AWST 2017 - MAWRTH 2019

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Aelodau gynnig sylwadau ar gasgliadau allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Drafft) cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Y Cabinet ac yna Llywodraeth Cymru.

Eglurwyd bod yr adroddiad monitro yn sail dystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Dros amser gall yr adroddiad monitro ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisïau sydd yn cyflawni ai peidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Nodwyd bod gan y Cynllun Datblygu Lleol fframwaith fonitro sydd wedi ei chytuno gyda'r Arolygydd yn ystod yr Archwiliad - ategwyd bod y fframwaith yn cynnwys 69 o ddangosyddion sydd yn adrodd ar 5 thema sydd yn y Cynllun.

Cyfeiriwyd at gasgliadau allweddol yr adroddiad monitro ac adroddwyd, o'u hystyried, nid oedd tystiolaeth yn dangos bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun. Byddai adolygiad o'r Cynllun yn cael ei gynnal yn 2021 oni bai bod

adroddiad monitro blynyddol yn nodi yn wahanol.

Diolchwyd am y  wybodaeth

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Awgrym i gyflwyno cyfanswm y nifer tai sydd wedi ei hadeiladu fesul blwyddyn er mwyn rhoi cyd-destun i'r adroddiad
- Bod angen adroddiad blaen, dealladwy yn crynhoi a symleiddio rhywfaint o'r wybodaeth dechnegol, ffeithiol
- Bod angen rheolaeth o gynnydd mewn tai haf o ganlyniad i dai newydd yn cael eu hadeiladu. Er yn ymwybodol bod y Cabinet wedi cymeradwyo gwaith ymchwil all arwain at newidiadau i ddeddfwriaeth, awgrymwyd sicrhau bod cyswllt rhwng yr adolygiad monitro blynyddol a'r gwaith ymchwil
- Bod yr adolygiad yn monitro adeiladau newydd ac nid y stoc tai
- Bod angen adolygu niferoedd tai yn sgil penderfyniad Wylfa B. Nifer o'r dynodiadau bellach yn 'ddi angen'
- Angen cydlynu datblygiadau economaidd gyda datblygiadau tai yn well
- Angen ystyried y term, 'pobl leol'. Gwledydd eraill megis yr Eidal yn datblygu tai ar gyfer pobl leol yn unig – awgrym i edrych yn fanylach i gynlluniau tebyg
- Rhaid rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer pob datblygiad ac nid ar gyfer adeiladu tai yn unig.
- Bod angen ystyried sut i fesur effaith ar yr iaith Gymraeg
- Cynnig bod datganiadau iaith yn cael eu cwblhau gan arbenigwyr cydnabyddedig priodol – awgrym i'r Cyngor roi arweiniad ar y rhai sydd yn gymwys i gwblhau datganiadau iaith
- Awgrym i sefydlu gweithgor ymhen blwyddyn fel bod modd herio ymhellach a chael dadansoddi'n fanylach
- Pwy fydd yn ymateb ar ran y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol erbyn Tachwedd 1af 2019?

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ar awgrym y dylai datganiadau iaith gael eu cwblhau gan arbenigwyr cydnabyddedig priodol, mynegodd Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd bod y Canllaw Cynllunio Atodol, Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, sydd y cynnwys arweiniad ar gynllunio a'r iaith Gymraeg, yn cyfeirio at yr angen i'r datganiadau gael ei gwneud gan unigolyn cymwys. Cydnabuwyd bod y canllaw yn cynnwys gwybodaeth newydd i bawb a bod bwriad cynnal sesiynau gydag Aelodau a rhai ar wahân ar gyfer asiantwyr gan fod sawl un wedi mynegi diddordeb. Ategwyd y byddai'n fuddiol i arbenigwyr / asiantwyr allanol fynychu sesiynau rhannu gwybodaeth debyg i'r un a gyflwynwyd i'r Aelodau.  O ran yr awgrym y dylai'r Cyngor baratoi datganiadau ac asesiadau ieithyddol, pwysleisiwyd mai rôl y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio Lleol yw  asesu ceisiadau cynllunio a'r holl asesiadau cysylltiedig ac nid paratoi rhannau o gais cynllunio ar ran datblygwr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â llunio ymateb i ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol, adroddwyd bod yr Uned Polisi yn cydgordio ymateb drwy ymgynghori gyda'r Adran Economi, yr Uned Iaith ac Adrannau eraill. Amlygwyd bod ymateb drafft wedi ei lunio a bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi gwneud cais am weithdy i drafod y manylion yn llawnach. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Cabinet yn ystyried yr ymateb

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â dangosydd D2 (caniatáu ceisiadau cynllunio lle

mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg) ‘nad oedd ceisiadau wedi cael caniatâd cynllunio ers mabwysiadu’r Cynllun ble bod angen mesurau i liniaru unrhyw niwed sylweddol i’r iaith Gymraeg’, eglurwyd, gan nad oedd niwed wedi ei adnabod yn y datganiadau iaith, nid oedd cyfiawnhad cynllunio i fesurau lliniaru. Ategwyd bod y datganiadau yn cael eu rhesymu a’u hasesu gan yr Uned Polisi a’r Uned Iaith ac y byddai mesurau lliniaru ond yn cael eu gosod petai’r dystiolaeth yn amlygu hynny.

**Croesawyd yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD**

- **Bod angen edrych yn fanylach ar drefniadau asesiadau iaith a datganiadau ieithyddol. Awgrymwyd cynnal sesiwn anffurfiol gydag Aelodau’r Pwyllgor i rannu gwybodaeth neu sefydlu gweithgor o Aelodau a Swyddogion i herio’r holl elfennau a dadansoddi’n fanylach. Petai gweithgor yn cael ei sefydlu, awgrymwyd y dylid ystyried gwahodd aelod o’r Pwyllgor Iaith i fod yn aelod o’r gweithgor.**

- **Er derbyn bod angen i’r adroddiad gynnwys gwybodaeth ffeithiol a thechnegol, awgrymwyd yr angen i ystyried symleiddio’r ffurf y cyflwynir yr adroddiad yn ysgrifenedig.**

- **Amlygu pryderon ynglŷn â dyfodol Wylfa a’r dynodiadau tai sydd bellach yn ‘ddiangen’**

  **- Bod angen adolygu’r niferoedd**

  **- Bod angen sicrwydd bod caniatadau cynllunio yn ymateb i’r angen**

- **Y gellid cydlynu datblygiadau economaidd gyda datblygiadau tai yn well**

- **Bod cyfle i edrych ar yr hyn mae gwledydd eraill yn ei wneud yng nghyd-destun tai ar gyfer pobl leol**

- **Bod gofyn i bob aelod godi ymwybyddiaeth o’r ymgynghoriad sydd yn cael ei gynnal ar y Fframwaith Cenedlaethol (dyddiad cau 1.11.19)**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15 y.b. a daeth i ben am 12.20 y.h.

**CADEIRYDD**